DRAFFT

# Cyllid Llywodraeth Leol (CYMRU)

Adroddiad Grant Arbennig (18)
(Cymru) 2001

## Cymorth Ariannol i Fusnesau y mae Clwy'r Traed a'r Genau wedi effeithio arnynt

### Cyflwyniad

1. Gwneir yr Adroddiad hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") o dan adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"). Mae'r Adroddiad hwn yn nodi penderfyniad ynghylch grantiau arbennig y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu eu talu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ("awdurdodau").

2. Mae'r Adroddiad hwn yn nodi penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch yr awdurdodau sydd i dderbyn y grantiau, at ba ddiben y mae'r grantiau i'w talu, a symiau'r grantiau y mae'r Cynulliad yn bwriadu eu talu i bob awdurdod. Mae hefyd yn rhoi gymaint o eglurhad ag y mae'n ei ystyried yn ddymunol o brif nodweddion y penderfyniad ac yn pennu'r amodau y mae'r Cynulliad yn bwriadu eu gorfodi mewn perthynas â thalu'r grantiau.

### Y diben

3. Yn unol ag adran 88B(3)(b) o Ddeddf 1988, mae'r Cynulliad Cenedlaethol drwy hyn yn penderfynu mai at y diben canlynol y mae grantiau arbennig i'w talu:

> Helpu awdurdodau gyda'r costau a'r atebolrwydd a ysgwyddir hyd at 31 Rhagfyr 2001 o dan adran 2(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 i gefnogi busnesau, trwy gymorth ariannol neu fel arall, y cafodd clwy'r traed a'r genau effaith andwyol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar eu masnach.

### Awdurdodau sydd i gael grantiau arbennig a'r symiau sy'n daladwy

4. Yn unol ag adran 88B(3)(a) ac (c) o Ddeddf 1988[1], mae'r Cynulliad drwy hyn yn penderfynu bod yr awdurdodau y mae grantiau arbennig i'w talu iddynt a'r symiau sy'n daladwy fel y'u hamlinellir yn Atodiad A.

[1] Ychwanegwyd Adran 88B at Ddeddf 1988 gan baragraff 18 Atodlen 10 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Trwy Orchymyn y Cynulliad Cenedlaethol (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, gweithredir swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 88B mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn amodol ar ddarpariaethau'r gorchymyn hwnnw

## Yr amodau sy'n gysylltiedig â thalu grantiau arbennig

5. Yn unol ag adran 88B(7) o Ddeddf 1988, mae'r Cynulliad Cenedlaethol drwy hyn yn pennu mai'r amodau a amlinellir yn Atodiad B yw'r amodau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu eu gorfodi ar gyfer talu grantiau.

## Prif nodweddion

6. Yn unol ag adran 88B(4) o Ddeddf 1988, mae Atodiad C yn cynnwys gymaint o eglurhad ag y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei ystyried sy'n ddymunol o brif nodweddion y penderfyniad a nodir yn yr adroddiad hwn a'r cyfarwyddyd priodol i awdurdodau lleol Cymru ar gyfer ei weithredu.

Cymeradwywyd trwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar [ ] 2001.

**Atodiad A**

**Swm y grant sy'n daladwy i'r awdurdodau**

| **Awdurdod Lleol** | **Grant a Delir** |
|---|---|
| | **£000'au** |
| | |
| Ynys Môn | 710 |
| Gwynedd | 1,800 |
| Conwy | 490 |
| Sir Ddinbych | 540 |
| Powys | 2,430 |
| Ceredigion | 420 |
| Sir Benfro | 580 |
| Sir Gaerfyrddin | 510 |
| Sir Fynwy | 610 |
| Blaenau Gwent | 40 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 50 |
| Caerffili | 90 |
| Caerdydd | 130 |
| Sir y Fflint | 50 |
| Merthyr Tudful | 30 |
| Castell-nedd Port Talbot | 60 |
| Casnewydd | 130 |
| Rhondda Cynon Taf | 120 |
| Abertawe | 80 |
| Tor-faen | 40 |
| Bro Morgannwg | 40 |
| Wrecsam | 50 |
| | |
| **Cyfanswm** | **9,000** |

## Atodiad B

**Amodau ar gyfer Talu'r Grant Arbennig**

1. Nid yw'r gwariant a gefnogir gan grantiau o dan SGR (rhif 13) yn gymwys i dderbyn cefnogaeth grantiau a delir o dan yr Adroddiad hwn.

2. Rhaid **ymrwymo'r** grantiau a restrir yn Atodiad A **erbyn 31 Rhagfyr 2001.**

3. Wrth ddefnyddio'r grantiau, bydd yr awdurdod yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cynulliad. Gweler copi o'r canllawiau yn Atodiad C yr Adroddiad hwn.

4. Bydd gofyn i bob awdurdod gofnodi sut mae'r grant yn cael ei ddefnyddio.

5. Bydd yr awdurdod yn rhoi i'r Cynulliad ba wybodaeth bynnag y gall ofyn iddo amdani i gadarnhau a yw wedi cydymffurfio â'r amodau hyn.

6. Bydd pob awdurdod sy'n derbyn arian grant yn **sicrhau bod ffurflen hawlio FM1 priodol wedi ei llenwi a'i hanfon ymlaen erbyn 31 Ionawr 2002 fan bellaf.**

7. Dylid gwneud trefniadau i'r **Cynulliad dderbyn adroddiad archwilio** (wedi ei ardystio gan yr archwiliwr a benodir gan y Comisiwn Archwilio) **erbyn 30 Ebrill 2002 fan bellaf.**

8. Os caiff unrhyw gyfran o'r grant ei dalu neu ei ymrwymo at ddiben heblaw'r rheini a restrir ym mharagraff 3 yr adroddiad hwn, rhaid talu'r swm hwnnw, sef y swm y bydd y Cynulliad yn gofyn i'r awdurdod amdano, yn ôl i'r Cynulliad.

9 Os na wnaiff yr awdurdod gydymffurfio ag unrhyw rai o'r amodau hyn, fe all y Cynulliad ofyn trwy lythyr i'r awdurdod dalu'r holl arian neu gyfran ohono yn ôl, fel y gwêl yn dda. Rhaid talu'r swm y gofynnir amdano yn ôl i'r Cynulliad ar unwaith.

**ATODIAD C**

**CYMORTH ARIANNOL I FUSNESAU Y MAE CLWY'R TRAED A'R GENAU WEDI EFFEITHIO ARNYNT:**

**ESBONIAD O BRIF ELFENNAU'R PENDERFYNIAD YN YR ADRODDIAD A'R CANLLAWIAU I AWDURDODAU LLEOL CYMRU**

## Cyflwyniad

Ar 26 Gorffennaf, cyhoeddodd Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, y byddai £9 miliwn yn cael ei glustnodi ar gyfer awdurdodau lleol yn 2001-2002 iddynt allu defnyddio'u pwerau i gynorthwyo busnesau yn eu hardaloedd sydd wedi dioddef oherwydd clwy'r traed a'r genau. Mae'r arian hwn yn ychwanegol at y £12 miliwn a glustnodwyd i'r un perwyl mewn cyhoeddiad ar 27 Mawrth gan y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Edwina Hart, a'i ddosbarthu trwy Adroddiadau Grant Arbennig (Rhif 7) a (Rhif 13) (Cymru) 2001.

Mae'r fformwla a ddefnyddir yn rhoi 90% o'r arian i'r naw awdurdod mwyaf gwledig gyda'r 10% sy'n weddill yn mynd i'r awdurdodau llai gwledig. Elfen arall yn y fformwla yw a oes ardal heintiedig fawr yn ardal yr awdurdod, a chaiff ffactorau fel twristiaeth ac amaethyddiaeth hefyd eu hystyried.

Mae'r penderfyniad a ddisgrifir yn yr adroddiad yn nodi'r symiau ychwanegol sydd i'w talu i awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i roi cymorth ariannol i fusnesau yr effeithiwyd yn andwyol ar eu busnes gan glwy'r traed a'r genau. Mae'n ganllaw hefyd i awdurdodau ar sut i ddefnyddio'u pwerau.

## Blaenoriaethau gweithredu

Mae maint a math y busnesau sydd wedi dioddef oherwydd clwy'r traed a'r genau yn amrywio o ardal i ardal. Awdurdodau lleol ŵyr orau felly, wedi casglu gwybodaeth am effaith y clwy' ar eu heconomi leol, pa fusnesau ddylai gael eu helpu. Er hynny, teimlwn y gallai canllawiau ar sut orau i ddefnyddio'r arian fod o gymorth.

Ein bwriad yw targedu'r cymorth er budd busnesau bach, er bod rhwydd hynt i awdurdodau helpu busnesau eraill sydd wedi dioddef os dyna'u dymuniad. Rydym yn arbennig o awyddus i helpu'r mathau canlynol o fusnesau:

- Y rheini sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a gweithgareddau cysylltiol e.e. gofaint/pedolwyr, cyfrwywyr, proseswyr, gweithgynhyrchwyr a gwerthwyr bwyd

- Y diwydiant twristiaeth e.e. gwestai, llety gwely a brecwast, tafarndai, bwytai ac ati, siopau rhoddion, atyniadau lleol, canolfannau gweithgareddau awyr agored a chyfleusterau hamddena

- Busnesau y bu'n rhaid iddynt gau oherwydd cyfyngiadau statudol.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.  Bydd yna fusnesau eraill lawn mor haeddiannol ond rhaid wrth wybodaeth leol i'w hadnabod.

**Y bwriad yw defnyddio'r grantiau yn bennaf i roi cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau sydd wedi dioddef.  Gellid defnyddio cyfran o'r arian hefyd i roi help anuniongyrchol e.e. trwy ariannu cyd-fentrau marchnata, os yw'r awdurdod o'r farn y byddai hynny'n fwy defnyddiol.**

Bydd awdurdodau'n cael defnyddio hyd at 2.5% o'r arian a neilltuir iddynt i weinyddu'r grantiau.

## Adran 2(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000

Mae Adran 2(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi pŵer dewisol newydd i awdurdodau iddynt allu gwneud unrhyw beth sy'n debygol o hyrwyddo neu wella ffyniant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardaloedd. Daeth y pŵer hwn i rym ar 9 Ebrill 2001.

Gellid rhoi cymorth i fusnesau i:

- hyfforddi eu gweithwyr a dysgu sgiliau newydd iddynt;
- rhoi cyngor arbenigol;
- fuddsoddi i arallgyfeirio a newid pwyslais eu busnesau;
- chwilio am farchnadoedd ar gyfer eu gweithgareddau a marchnata gweithgareddau newydd;
- talu costau llog benthyciadau masnachol a godwyd i dalu am waith ad-drefnu neu adfer.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac fe allai fod yna fesurau eraill y carai awdurdodau eu defnyddio.   Byddem yn disgwyl i awdurdodau gadw mewn cof y mesurau sydd gan asiantaethau datblygu eraill (WDA, Bwrdd Croeso, ELWa ac ati) a'r Cynulliad (o ran helpu amaethyddiaeth) mewn llaw.

## Cymorth gwladol

Dylai awdurdodau gofio nad yw yw rheolau cymorth gwladol yr CE yn caniatau rhoi mwy o gymorth na gwerth y trothwy de minimis, sef €100,000 (tua £60,000), i unrhyw fusnes unigol dros gyfnod o dair blynedd.  Bwriad Llywodraeth y DU yw gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd am gael eu heithrio o'r rheolau Cymorth Gwladol yn achos Clwy'r Traed a'r Genau – cymorth cysylltiol i fusnesau di-fferm.  Nid oes cytundeb eto ar yr amodau terfynol a chaiff awdurdodau wybod am unrhyw ddatblygiadau.  Yn y cyfamser, cynghorir awdurdodau i gadw o fewn y trothwyon a'r sectorau de minimis.

Rhaid bod yn neilltuol o ofalus wrth roi cymorth i'r sector amaethyddol.  Fel canllaw, ni chaniateir cymorth at ddiben cynhyrchu sylfaenol (e.e. prynu anifeiliaid, cynyddu lefel cynhyrchu ac ati).   Mae mathau eraill o gymorth yn dderbyniol (cyn belled ag y cedwir at y lefelau de miminis uchod) ond mae gofyn i awdurdodau gadw at y trothwy cymorth gwladol os ydynt yn helpu

ffermwyr i wneud unrhyw beth â'r tir. Mae help i arallgyfeirio (e.e. prosesu, gwasanaethau swyddfa, twristiaeth) yn dderbyniol, ond dylai awdurdodau geisio peidio â dyblygu grantiau'r Cynulliad. Dylai awdurdodau sydd â chynlluniau ar gyfer y sector amaethyddol gysylltu â'r Cynulliad yn y mannau cyswllt isod.

**Mwy o wybodaeth**

Mae yna fwy o wybodaeth am glwy'r traed a'r genau ar wefan y Cynulliad: www.cymru.gov.uk/newsflash.

Os hoffech gyngor ar y canllawiau hyn, cysylltwch â:

Emyr Roberts ar 029 20 823634 (emyr.roberts@wales.gsi.gov.uk)
Terri Thomas ar 029 20 825471 (terri.thomas@wales.gsi.gov.uk) i siarad am y sector amaethyddol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**